
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Crimpiau, Capel Curig

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 6km (3.7 milltir)
- Hyd: 3 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.


eryri.llyw.cymru



V-20220323/1621





Dilynwch y llwybr i'r chwith o fynedfa'r maes parcio. Ewch heibio'r toiledau cyhoeddus a pharhau yn eich blaen tan i chi gyrraedd y brif ffordd.





Croeswch y ffordd fawr yn ofalus. Cerddwch i fyny'r trac i'r chwith o Eglwys Sant Curig gyferbyn â'r gyffordd.





Dilynwch y trac i ben ucha'r cae ac yna ewch trwy'r adwy. Cadwch i'r dde a chroeswch bont garreg fechan. Dilynwch y llwybr carreg ar draws y cae.





Ewch dros y gamfa ger y giât fetel fechan a dilynwch y llwybr trwy goedlan hardd. Pan fydd y llwybr yn ymddangos fel petai'n fforchio, dilynwch y llwybr i lawr i'r dde tuag at fwlch yn y wal.




Parhewch ar hyd y llwybr ac allan o'r goedlan. Yn y man fe ddewch at giât fach.





Ewch dros y gamfa a dilynwch y llwybr carreg. Croeswch yr afon dros bont bren hardd, a throwch i'r chwith yn syth.




Dilynwch y llwybr dros fryncyn am tua 500m ac ewch drwy'r giât. Mwynhewch y golygfeydd bendigedig o Foel Siabod a'r Wyddfa y tu ôl i chi.





Parhewch ar hyd y llwybr am 500m arall. Croeswch y nant fechan, ac ewch drwy'r giât. Dilynwch y llwybr i'r dde gan gadw Creigiau Geuallt ar eich ochr chwith.




Ymhen tua 1km, bydd y llwybr yn fforchio. Cadwch i'r chwith ac ewch heibio clogfaen mawr.




Parhewch i ddilyn y llwybr nes y cyrhaeddwch groesffordd (nodwch nad yw'n amlwg iawn ar y ddaear). Trowch i'r chwith trwy'r brwyn.




Dechreuwch eich esgyniad i gopa'r Crimpiau. Byddwch yn ofalus ar y tir serth a chreigiog.




Unwaith y daw Llyn Crafnant i'r golwg, cadwch i'r dde a dilynwch y llwybr i fyny llethr serth.




Parhewch i ddringo, ac yna croeswch dir gwastad a chorsiog. Mae'r llwybr i'r copa'n arwain i fyny i'r dde. Cymerwch ofal ar y rhan yma – mae hi'n rhydd iawn o dan draed.




O'r copa, mwynhewch olygfeydd godidog o'r ardal o gwmpas gan gynnwys Pedol Yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen, Tryfan, Pen yr Ole Wen, Pen yr Helgi Du, Llyn Crafnant a Dyffryn Conwy.




Dechreuwch eich disgyniad gan ddilyn y llwybr ar hyd ochr dde'r gefnen.




Ymhen tua 500m fe ddewch at lyn bychan o'r enw Llyn Coryn. Parhewch ar hyd y llwybr gan gadw'r llyn ar eich ochr dde.




Wedi i chi basio'r llyn, anelwch am ffens wifren ar y gorwel i fyny i'r dde. Cerddwch dros ddarn byr o lwybr creigiog, gan gadw'r ffens wifren ar eich ochr dde.




Dilynwch y llwybr i lawr llethr serth. Gan gadw'r ffens wifren ar eich ochr dde, ewch ymlaen at y gamfa nesaf.



19

Ewch dros y gamfa a dilynwch y llwybr i lawr tir garw at gamfa arall.



20

Dringwch dros y gamfa a throwch i'r dde, gan gadw'r ffens wifren ar eich ochr dde.



21

Parhewch ar hyd y llwybr dros dir gwlyb a chorsiog, gan gadw'r ffens ar eich ochr dde.



22

roeswch gae gwlyb a chorsiog, gan anelu tuag at gamfa arall ar y dde.



23

Ewch dros y gamfa a pharhewch i lawr y llwybr at gamfa arall ar y chwith.



24

Dringwch dros y gamfa a dilynwch y llwybr i lawr llethr hynod o serth.



25

Ar waelod y llethr byddwch yn ail-ymuno â'r llwybr ar ddechrau'r daith. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr trwy'r goedlan. Ewch dros y gamfa ac allan o'r goedlan, gan ddilyn yr un llwybr yn ôl i'r maes parcio yn y pentref.